



Mae hwn yn weithgaredd â ffocws ar adolygu, sy'n rhoi'r sgiliau blaenorol a ddysgwyd at ei gilydd. Mae'n ymwneud â chreu cynnyrch terfynol, gan gymhwyso'r sgiliau sy'n ofynnol gan AA1. Rhoddir crynodeb â phwyntiau bwled er nad oes rhaid datblygu'r holl bwyntiau bwled. Efallai y bydd angen newid trefn y pwyntiau bwled hefyd. Rhoddir amrywiaeth o ddyfyniadau, ond unwaith eto nid yw pob un yn ofynnol. Bydd angen i chi lunio eich casgliadau dros dro eich hun a llunio traethawd wedi'i gwblhau o fewn yr amser o 25 munud sydd ar gael. Yna, cymharwch ef ag eraill yn y dosbarth a thrafodwch unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ac ym mha ffyrdd y gallai fod wedi cael ei wella.

## TEITL Y TRAETHAWD:

### A yw ISKCON yn ffurf ddilys ar Hindwaeth? (AA1 – Thema 3)

- Gellir dadlau bod ISKCON wedi cael effaith ddwys ar Hindwaeth drwy ei chyflwyno i gymdeithas Orllewinol ac, fel y cyfryw, mae llawer yn ei hystyried yn ffurf ddilys ar Hindwaeth.
- Mae'n ddilys am ei bod wedi dylanwadu ar arferion Hindwaidd, er enghraifft, y ffaith ei bod yn ailbwysleisio bhakti. Gwnaeth ddiwallu anghenion a bodloni dyheadau ysbrydol pobl Orllewinol a rhoddodd bwyslais newydd i Hindwaeth.
- Caiff cefnogwyr eu hannog i ddarllen testunau sanctaidd Hindwaidd - fel y Bhagavad Gita a gwrando ar ddysgeideithiau gwrw sy'n hanfodol mewn Hindwaeth.
- Mae'n gynrychioliadol iawn o Vaishnava bhakti - yn yr arferion fel gofalu am y murtis a cheisio darshan.
- Mae'r sawl sy'n arfer Gaudiya Vaishnavism yn ystyried bod ISKCON yn ddatblygiad dilys a phwysig yn hanes eu crefydd.
- Caiff ei chydabod fel rhan o'r traddodiad Hindw gan lawer o Hindwiaid alltud.
- Mae ISKCON yn derbyn credoau Hindwaidd sylfaenol megis karma ac ailymgnawdoliad.
- Byddai eraill yn dadlau, er ei fod yn ffurf ddilys ar Hindwaeth, mai bach iawn fu'r effaith a gafodd. Mae'n fudiad bach, yn gwlt, nad yw wedi cael llawer o effaith ar Hindwaeth yn India nac ar Hindwaeth brif ffrwd.
- Byddai rhai yn dadlau gan fod ISKCON yn cynnwys credoau ymroddedig, defosiynol ac angerddol mewn realaeth oruwchnaturiol gymhleth, na ellir ystyried bod unrhyw her wirioneddol i'r gallu i gydnabod ISKCON fel crefydd. Fodd bynnag, byddent yn dadlau ei bod yn grefydd ynddi'i hun yn



hytrach na changen o Hindwâeth.

- Byddai rhai Hindwâiaid yn dadlau nad yw'n fudiad Hindwâidd o gwbl. Byddai rhai yn dadlau ei bod yn sefydliad gwleidyddol seciwlar ac nad yw wedi'i hymgorffori mewn credoau nac athroniaeth Hindwâidd.
- Byddai eraill yn dadlau i'r gwrthwyneb drwy nodi y gellir olrhain gwreiddiau ISKCON i'r unfed ganrif ar bymtheg ac felly ei bod yn ffurf sefydledig a dilys ar Hindwâeth.



## DYFYNIADAU

- Mae ISKCON yn draddodiad sy'n hawlio lle parchus ym mywyd crefyddol dynol ryw. (Diana Eck)
- Cododd allan o'r nesaf peth at ddim mewn llai nag ugain mlynedd ac mae wedi dod yn hysbys ledled y Gorllewin. Credaf fod hyn yn un o arwyddion yr oes ac yn ffaith bwysig yn hanes y byd Gorllewinol. (A. L. Basham)
- Fodd bynnag, rhaid i mi gyfaddef, er gwaethaf fy ngwerthfawrogiad cynyddol o ddiwylliant Hindwaidd, rwy'n gwingo pan glywaf rywun yn cyfeirio at Arglwydd Krishna fel "duw Hindwaidd," at fudiad ymwybyddiaeth Krishna fel "enwad o Hindwaeth" neu at y Bhagavad-gita, y mae ISKCON wedi'i gyhoeddi mewn mwy na deg ar hugain o ieithoedd, fel y "beibl Hindwaidd." Yn ôl confensiwn, neu ddealltwriaeth gyffredin, gall fod yn iawn ein galw yn Hindwaiaid, ond o edrych yn agosach gwelir nad yw'r dynodiad yn gwbl briodol. (Mathuresa Dasa)
- Fodd bynnag, y gwir yw bod gan Srila Prabhupada ei hun safbwynt haenog ar y pwnc, gan ymateb i'r enw "Hindw" yn yr un ffordd ag yr oedd yn ymateb i bopeth arall-yn gynnil yn unol ag amser, lle, ac amgylchiadau. (Anuttama Dasa)
- "Dechreuais fy nghyflwyniad gyda dau ddyfyniad," meddai. "Un oedd 'Mae camsyniad bod y mudiad ymwybyddiaeth Krishna yn cynrychioli crefydd Hindwaidd.' Y llall oedd, 'Rydym yn lledaenu diwylliant Hindwaidd ledled y byd.' (Gauri Dasa)
- Mae'r mewnlifiad mawr hwn o athrawon Hindwaidd i'r Gorllewin yn ystod y 1960au a'r 1970au wedi cyfrannu at Hindwaeth Fyd-eang. (Gavin Flood)
- Dangosir y perthynoledd gwirionedd a dderbynnir gan Hindwaeth yn dda yn hanes y dynion dall a'r eliffant. Cyffyrddodd pob dyn ag un rhan o'r eliffant, a datgan bod yr eliffant yr hyn a brofodd. Roedd pob cyfrif yn gywir ynddo'i hun, ond nid oedd gan yr un o'r dynion syniad ynghylch beth oedd eliffant go iawn. (David Smith)
- Mae'n ffasiynol am resymau gwleidyddol da i wadu undod Hindwaeth, ond mae ei ffurfiau lluosog yn fwy hygyrch o'r ddeutu nag enwadau ar wahân crefyddau eraill. (David Smith)